






**YR YSTAD  
DDIOGELEDD**







## BETH YW'R YSTAD DDIOGELEDD?

---

-  Mae llawer o'r asesiad poblogaeth hwn yn ymwneud â lles pobl sy'n byw yn rhydd yn ein cymunedau.
  -  Yn ardal Bae'r Gorllewin, mae tri sefydliad "diogel" – dau garchar (un yn Abertawe ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr) ac un Cartref Plant diogel yng Nghastell-nedd Port Talbot.
  -  Mae'n bwysig ateb anghenion gofal a chymorth pobl sy'n byw yn yr ystad ddiogeledd yn ystod eu cyfnod yn y sefydliadau hynny, a bod cynlluniau ar waith hefyd i sicrhau bod pobl yn cael mynediad i'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt pan gânt eu rhyddhau i fyw yn y gymuned ehangach.
- 

Ar ôl dedfrydu, mae carcharorion gwryw sy'n oedolion yn cael eu rhoi yn y categori diogeledd cywir mewn carchar priodol. Mae categorieiddio yn seiliedig ar lefel y peryglon y gallai carcharor eu hachosi i'r cyhoedd neu ar ddiogelwch gwladol pe byddent yn dianc a'r tebygolrwydd y byddant yn ceisio gwneud hynny.

---

-  Byddai carcharorion Categori A yn achosi'r bygwth mwyaf pe byddent yn dianc .
-  Nid oes rhaid i garcharorion Categori B gael eu cadw yn yr amodau diogelwch uchaf ond dylai'r posibilrwydd o ddianc fod yn anodd iawn.
-  Ni ellir gadael carcharorion Categori C mewn amodau agored ond cânt eu hystyried i fod yn annhebygol o ddianc.
-  Gellir gadael carcharorion Categori D mewn amodau agored







## YR YSTAD DDIOGLEDD - CARCHAR EI MAWRHYDI A SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC Y PARC

### ▼ CARCHAR EI MAWRHYDI A SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC Y PARC

Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc – cafodd ei agor yn 1997 ac mae'n sefyll o fewn ffin Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n gallu dal hyd at 2,000 o garcharorion gwryw Categori B.

 Ar hyn o bryd, ef yw'r unig garchar preifat yng Nghymru ac fe'i rheolir gan G4S ar ran Y Gwasanaeth Carchardai.

 Mae'r Uned Carcharorion Agored i Niwed yn derbyn carcharorion o Garchar Abertawe a Charchar Caerdydd ac felly mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn Gymry.

 Mae gan y carchar ddwy brif adran:

- ▶ A young person unit for males aged 15 to 17 years
- ▶ Main prison for young offenders aged 18 to 21 years and adult offenders





## CARCHAR EI MAWRHYDI Y PARC - PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

### ▼ PROFFIL OEDRAN

Age	Nifer y Carcharorion	%
Oed Ieuengaf: 15	-	-
Dan 21	166	10.00%
21 oed i 29 oed	578	34.70%
30 oed i 39 oed	498	29.90%
40 oed i 49 oed	239	14.30%
50 oed i 59 oed	115	6.90%
60 oed i 69 oed	53	3.20%
70 oed a hŷn	19	1.10%
Oed Hynaf: 89	-	-
Cyfanswm	1,668	100.00%



## ▼ ETHNIGRWYDD

Ethnigrwydd	18 - 20 oed	21 oed a hŷn	Arall	%
Gwyn	100	1,348	37	80.0%
Cymysg	< 5	34	6	2.6%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	6	55	< 5	3.9%
Du neu Ddu Prydeinig	6	53	< 5	3.8%
Grŵp Ethnig Arall	0	8	0	0.5%
Heb ei Ddatgan	0	< 5	0	0.2%

## ▼ DEDFRYDU

Dedfryd	18-20 oed	21 oed a hŷn	Arall	%
Heb eu dedfrydu	5	41	13	3.5%
Llai na 6 mis	6	< 5	5	0.9%
6 mis i lai na blwyddyn	10	9	8	1.6%
Blwyddyn i lai na 2 flynedd	25	165	12	12.1%
2 flynedd i lai na 3 blynedd	30	241	5	16.5%
3 blynedd i lai na 4 blynedd	14	197	< 5	12.8%
4 blynedd i lai na 10 mlynedd	25	551	< 5	34.8%
10 mlynedd neu fwy ond llai na dedfryd oes	0	221	0	13.2%
Oes - Heb fod yn ISPP	0	41	< 5	4.4%
Oes - ISPP	0	32	0	1.9%



---

**▼ PROFFIL IECHYD**


---

<b>Cyflyrau Corfforol</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>
<b>Pwysedd Gwaed Uchel</b>	<b>17</b>
<b>Diabetes Math 2</b>	<b>16</b>
<b>Diabetes Math 1</b>	<b>&lt; 5</b>
<b>Asthma</b>	<b>60</b>
<b>Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint</b>	<b>&lt; 5</b>
<b>Epilepsi (gyda diagnosis)</b>	<b>29</b>
<b>Cardiaidd</b>	<b>27</b>

Mae amrywiaeth ehangach o gyflyrau ieched corfforol yn y Boblogaeth Carcharorion Agored i Niwed oherwydd nifer gynyddol y troseddau rhywiol a adroddwyd sy'n arwain at euogfarnau yn oedran hŷn.

Mae amrywiaeth o glinigau arbenigol ar waith i ateb anghenion poblogaeth y carchar. Mae darpariaeth gofal cymdeithasol wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar ac mae hon wedi bod o gymorth mawr yn yr ardal hon lle mae'r galw am ofal cymdeithasol wedi cynyddu'n fawr.




---





## CARCHAR EI MAWRHYDI Y PARC – PWY SY’N CAEL HELP A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

---



-  Mae’rcarcharyndarparuAddysg, Diwydiannau, HyfforddiantGalwedigaethol, Camddefnyddio Sylweddau, Rheoli Troseddwyr, Ymyriadau a Rhaglenni yn uniongyrchol.
-  Darperir nifer o wasanaethau trwy gyllid allanol megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS), Mewngymorth Iechyd Meddwl, y Ganolfan Adfer Gymunedol a Gofal Cymdeithasol.
-  Mae gwasanaethau a gomisiynwyd hefyd gan gynnwys Iechyd (trwy Iechyd G4S) a Phrawf.



## — IECHYD A LLES EMOSIYNOL - IECHYD MEDDWL

Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth iechyd meddwl yn cael ei chyflwyno trwy broses hunan-gymorth. Bydd llawer o garcharorion yn ceisio cymorth rywbryd yn ystod eu dedfryd, yn cael eu rhyddhau o ofal ond yn cael eu haillderbyn yn ddiweddarach oherwydd dirywiad yn eu hiechyd meddwl.

O'r carcharorion o dan ofal gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd mae:

-  222 o garcharorion gyda diagnosis cychwynnol o gyflyrau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol sy'n defnyddio gwasanaethau meddygon/gofal sylfaenol.
-  Mae 38 â chyflyrau iechyd meddwl difrifol wedi'u diagnosisio a'u hasesu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol/gofal eilaidd.

## ▼ IECHYD A LLES EMOSIYNOL - HUNAN-LADD A HUNAN-NIWEIDIO


Chwarter	Digwyddiad Hunan-niweidio	Poblogaeth Gyfartalog	% hunan-niweidio yn erbyn y boblogaeth
Gorff-Medi 2015	204	1684	12.1%
Hyd-Rhag 2015	213	1670	12.8%
Ion-Maw 2016	330	1665	19.8%
Ebr-Meh 2016	400	1657	24.1%





## IECHYD A LLES EMOSIYNOL - CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

**CANRAN Y CARCHARORION SY'N DATGELU EU BOD WEDI DEFNYDDIO UN NEU FWY O SYLWEDDAU YN Y 6 MIS DIWETHAF**









## YR IAITH GYMRAEG

Mae'r carchar yn cyflwyno darpariaeth Gymraeg i garcharorion a staff ac mae athrawon Gymraeg yn cynnig gwersi i'r ddau grŵp. Nid yw'r holl wybodaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg eto, ond, mae'r carchar yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r ac arweinydd dynodedig Cymru i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg ar draws y gwasanaeth carchardai yng Nghymru. Mae gan Garchar Ei Mawrhydi y Parc brif reolwr a ddynodwyd fel y pwynt cyswllt unigol yn y carchar i gynorthwyo i gyflawni hyn.







## SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC Y PARC – PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

-  Mae'r Uned Pobl Ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc yn lletya hyd at 64 o ddynion ifanc rhwng 15 a 17 oed yn un o ddwy uned. Yn gyffredinol maent yn dod at ei gilydd bob dydd mewn grwpiau bach ar gyfer Addysg (25 awr yr wythnos) a rhai gweithgareddau eraill. Bob nos, mae cyfnod pan fydd y bobl ifanc yn cymdeithasu gyda'i gilydd cyn dychwelyd i'w hystafelloedd am y nos.
-  Yn wreiddiol agorwyd yr uned mewn ymateb i awydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i letya troseddwy'r ifanc yn nes at eu cartrefi eu hunain ond mae'n derbyn pobl ifanc ar draws yr ystad ddiogeled. Mae'r uned yn mabwysiadu dull cyfannol o adsefydlu ac ailsefydlu pobl ifanc yn effeithiol.
-  Pan fydd yr holl bobl ifanc yn cyrraedd Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, bydd nyrs yn eu gweld ar gyfer asesiad iechyd cyffredinol cyn iddynt gael caniatâd i ffonio eu perthynas agosaf i gadarnhau eu bod wedi cyrraedd yn ddiogel. Yna, maent yn cael eu cyflwyno i aelod o staff.
-  Dros y pum diwrnod gwaith nesaf bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu lle byddant yn dysgu am drefn reolaidd Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ac mae'r staff hefyd yn cael cyfle i ganfod beth yw anghenion y person ifanc.
-  Mae system o Gymhelliadau a Breintiau a Enillwyd er mwyn creu amgylchedd cadarnhaol ac iach ar draws yr uned. Mae gan y system bedair lefel; Platinwm, Aur, Arian ac Efydd.
-  Yn y cyfnod ers gweithredu'r Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant ar 6 Ebrill 2016 a 30 Medi 2016 mae 71 o Bobl Ifanc wedi cael eu derbyn i'r Uned Pobl Ifanc, 37 o Ardaloedd Awdurdodau Lleol Cymru a 34 o Ardaloedd Awdurdodau Lleol Lloegr.



## £ FAINT MAE'N EI GOSTIO?

---





-  Gan fod y carchar yn cael ei reoli gan gwmni preifat, ni ellir cynnwys data'n ymwneud â chostau oherwydd byddai hyn yn cael ei farnu'n fasnachol gyfrinachol.
-  Mae bylchau posibl yn y gwasanaeth. Er enghraifft, pan agorwyd y Parc yn wreiddiol, cafodd Mewngymorth lechyd Meddwl ei ddarparu yn seiliedig ar ffigur poblogaeth o 800. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r arian hwn yn uniongyrchol. Mae'r carchar bellach yn dal 1,723 o garcharorion ac ni fydd unrhyw gynnydd yn narpariaeth yr arian na'r adnoddau a roddir i'r Parc. Mae'r mater hwn wedi cael ei amlygu mewn Asesiadau Anghenion lechyd blaenorol ac mae'n cael ei godi'n rheolaidd gan y tîm Mewngymorth gyda Llywodraeth Cymru ac mae risg yn cael ei thrafod yn y Byrddau Partneriaeth lechyd gyda Bwrdd lechyd PABM.





## PA NEWIDIADAU Y MAE’N RHAID I NI GYNLL-UNIO AR EU CYFER?

---

-  Mae peth tystiolaeth bod troseddu’n cynyddu yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economiadd a thyfiant isel ac ansicrwydd.
-  Adeiladwyd y carchar i ddal 2,000 o garcharorion. Petai poblogaeth y Parc yn cynyddu hyd yr eithaf, sydd yn hynod debygol oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth carchardai ar draws y DU, byddai angen cynnydd ym mhob darpariaeth gwasanaeth i ateb y galw hwn.
-  O ran cyfrifoldeb newydd yr Awdurdod Lleol o dan y Ddeddf ac er mwyn deall y galw am y gwasanaethau yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc, y bwriad yw sefydlu tîm arbrol Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gwerthuso galw a chost wirioneddol y gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf.
-  Mae’r arian ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dod o’r £3m ychwanegol a roddir i Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).






## YR YSTAD DDIOGELEDD - HILLSIDE


### — BETH YW CARTREF DIOGEL I BLANT?

Mae Cartrefi Diogel i Blant yn darparu lleoliadau i fechgyn a merched gan gynnwys gofal preswyl llawn, cyfleusterau addysgol a darpariaeth gofal iechyd. Mae lefel uchel iawn o gymorth dwys yn cael ei chynnig i bob person ifanc. Mae staff mewn Cartrefi Diogel i Blant yn gweithio'n agos gyda phartneriaid aml-asiantaeth i gyflwyno cynlluniau gofal unigol.

Mae 14 o Gartrefi Diogel i Blant yn Lloegr ac 1 yng Nghymru sy'n cael eu rheoli'n unigol. Agorwyd Hillside, Cartref Diogel i Blant yng Nghastell-nedd, yn 1996. Gall hyd at 22 o bobl ifanc, bechgyn a merched rhwng 12 a 17 oed gael eu lletya ar unrhyw un adeg. Mae Hillside yn derbyn plant a phobl ifanc o unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

### — PWY SY'N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

 Mae pobl ifanc yn Hillside mewn argyfwng, ni allant gael eu cefnogi'n ddiogel mewn lleoedd eraill.

 O'r 22 o leoedd yn Hillside mae 10 o welyau wedi'u contractio i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i letya'r rhai y mae'n ofynnol yn ôl y Llysoedd iddo reoli eu hymddygiad troseddol. Mae'r 12 o welyau sy'n weddill yn cael eu defnyddio i reoli pa mor agored i niwed yw'r bobl ifanc a bodloni gofynion Adran 25 o Ddeddf Plant 1989, sef:





- ▶ mae gan y plentyn hanes o redeg i ffwrdd ac mae'n debygol o redeg i ffwrdd o lety nad yw'n ddiogel; ac
- ▶ os yw'r plentyn yn rhedeg i ffwrdd, mae'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; NEU
- ▶ os nad yw'r plentyn mewn llety diogel, mae'n debygol o anafu ei hunan neu rywun arall.



## — PWY SY’N AROS YN HILLSIDE?


Er bod 22 o bobl ifanc yn gallu cael eu lletya yn Hillside ar unrhyw un adeg mae nifer o dderbyniadau drwy gydol y flwyddyn:

	2013 - 2014	2014 - 2015	2015 - 2016
Male	44	39	57
Female	37	18	21
Total	81	57	78

-  O'r 81 o dderbyniadau yn 2013-2014: roedd cyfanswm o 58 (72%) yn dod o Loegr, ac roedd y 23 sy'n weddill (28%) yn dod o Gymru. Doedd neb yn dod o Gastell-nedd Port Talbot.
-  O'r 39 o dderbyniadau yn 2014-2015: roedd cyfanswm o 25 (44%) yn dod o Loegr, ac roedd y 32 sy'n weddill (56%) yn dod o Gymru. Roedd 4 ohonynt yn dod o Gastell-nedd Port Talbot.
-  O'r 57 o dderbyniadau yn 2015-2015: roedd cyfanswm o 36 (46%) yn dod o Loegr, ac roedd y 42 sy'n weddill (54%) yn dod o Gymru. Roedd 6 ohonynt yn dod o Gastell-nedd Port Talbot.
-  Ar gyfartaledd mae pobl ifanc yn aros yn Hillside am 3-4 mis.



# MODEL ADFER WEDI TRAWMA








Mae amrywiaeth o raglenni ar gael yn Hillside. Nid yw'r math o ymyriad yn cael ei nodi nes bod asesiadau cynhwysfawr wedi cael eu cwblhau yn unol â'r model adfer wedi trawma. Mae'r ymyriad yn cael ei drefnu yn ôl anghenion seicolegol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol y plentyn. Mae hyn yn unigryw ar gyfer y sector Cartrefi Diogel i Blant.



---

## — ADNABOD LLETY ‘SYMUD-YMLAEN’ ADDAS





---

-  Mae gan Hillside ei swyddog ailsefydlu ei hunan sy'n cefnogi trosglwyddo pobl ifanc yn ôl i'r gymuned.
-  Mae'r berthynas waith dda rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a Gwasanaethau Cymdeithasol yn golygu bod llety 'symud-ymlaen' addas yn cael ei adnabod ar ddechrau'r lleoliad Ystad Ddiogeledd.
-  Mae swyddogion llety ardal yn ymweld â Hillside i gwblhau Aseidiadau Tai i benderfynu ar anghenion llety pob unigolyn ifanc. Mae'r bobl ifanc yn cael gwybodaeth a chynghor ar lety.
-  Mae'r cartref gofal preswyl yn gweithio gyda'r ystad ddiogeledd i ddarparu gwybodaeth am 'symud ymlaen', mae'r bobl ifanc yn cwrdd â'r staff ac yn gallu ymweld â'r lleoliad ac aros dros nos cyn symud i mewn.
-  Mae'r holl bobl ifanc sy'n gadael Hillside naill ai'n mynd adref, i ofal preswyl, gofal maeth neu i ddarpariaeth arall o fewn yr ystad ddiogeledd.

---

## — RHWYSTRAU I ‘SYMUD YMLAEN’

---

-  Mae prinder llety â chymorth mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol.
-  Mae rhai o'r llety yn anaddas ar gyfer lleoliadau Cyfiawnder Ieuencid.
-  Mewn rhai ardaloedd mae nifer fawr o bobl ifanc sydd eisoes yn byw mewn llety â chymorth.
-  Mae gan rai awdurdodau lleol brinder gwybodaeth am lety 'symud-ymlaen' addas.













---

## — ADDYSG, CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT



---

-  Mae Hillside wedi datblygu darpariaeth addysg sy'n gysylltiedig ag Ysgol brif-ffrwd, mae hyn yn unigryw yng Nghymru a Lloegr. Mae pob person ifanc yn gadael i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn.
-  Mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi gan eu hawdurdod lleol a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid ac maent yn gallu dychwelyd i'r ystad ddiogeledd unwaith eu bod wedi gadael i sefyll eu harholiadau TGAU.
-  Mae colegau lleol yn cynnig sesiynau blasu hyblyg.
-  Cytunir ar gymorth ariannol ac offer ar gyfer y bobl ifanc pan fyddant yn mynd i'r coleg gyda chymorth gan eu hawdurdod lleol.
-  Er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc mewn lleoliadau diogel, darperir rhaglenni addysgol gan y Gwasanaeth leuenctid, Prosiectau Tai Pobl Ifanc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.
-  Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi'r ystad ddiogeledd.
-  Gall Gwasanaethau Cymorth yr Ystad Ddiogeledd adnabod anawsterau dysgu, lleferydd ac iaith yn y bobl hynny nad oedd y materion wedi'u hadnabod yn flaenorol.
-  Mae cydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctod yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth adeg rhyddhau gyda chymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen.

---

## — RHWYSTRAU I ADDYSG, CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT

---






-  Nid yw rhai pobl ifanc yn gallu dychwelyd i'w hysgol wreiddiol na mynd i sefydliadau addysg bellach oherwydd gwahaniaethu a/neu natur eu trosedd.
-  Nid yw rhai dyheadau i fynd i'r coleg yn cael eu gwireddu oherwydd bod eu dyddiad rhyddhau o'r Ystad Ddiogeledd ym mis Hydref/Rhagfyr sy'n golygu eu bod yn colli'r digwyddiad cofrestru i'r coleg (nid oes unrhyw hyblygrwydd i ddechrau cyrsiau yn yr ystad ddiogeledd).



---

## — CYLLID - CYNGOR AR FUDD-DALIADAU A DYLED




---

-  Gweithio mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Troseddau leuenctid a'r Awdurdodau Lleol i gael rhifau Yswiriant Gwladol ar gyfer y bobl ifanc.
-  Mae Cymdeithasau Tai Cymdeithasol lleol yn rhedeg rhaglenni cyngor ar gyllidebu.
-  Gall pobl ifanc agor eu cyfrifon banc eu hunain.
-  Rhaglenni addysg mewnol yn canolbwyntio ar sgiliau rhifedd a chyllidebu.
-  Darperir gwybodaeth am hawliau pobl ifanc sy'n rhoi cyfle iddynt gael cymorth ariannol.

---

## — RHWYSTRAU'N YMWNEUD Â BUDD-DALIADAU A DYLEDION

---




-  Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl i bobl ifanc gael cyfweiliadau Cymhorthdal Incwm na Chredyd Cynhwysol cyn eu bod yn cael eu rhyddhau o'r Ystad Ddiogeled.
-  Mae'n anodd i bobl 17 a 18 oed gael budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt cyn eu bod yn cael eu rhyddhau.
-  Nid yw rhai awdurdodau lleol a Gwasanaethau Troseddau leuenctid yn ymwybodol bod ganddynt gyfrifoldebau ariannol ar gyfer y bobl ifanc yn eu gofal (e.e. Lwfans Byw Wythnosol, Grant i Bobl sy'n Gadael Gofal, Ymweliad Teuluol).



---

## — IECHYD A LLES




---

-  Mae Hillside wedi datblygu ei Dîm Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewnol ei hunan, ac mae ganddo ei weithiwr camddefnyddio sylweddau ei hunan i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr ac ymatebol.
-  Mae'r Meddyg Teulu, y Nyrs, y Deintydd a'r Optegwyr ar y safle yn darparu gofal iechyd parhaus yn y gymuned i hwyluso trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau iechyd yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt fynediad i feddyg teulu penodol.
-  Mae'r Tîm Gwasanaethau Cymorth Proffesiynol yn cwblhau amrywiaeth o asesiadau cyfannol i sicrhau cymorth iechyd parhaol i bobl ifanc.

---

## — RHWYSTRAU I IECHYD A LLES

---

-  Mae gan nifer o bobl yn Hillside broblemau iechyd meddwl heb eu diagnosis megis anhwylder straen wedi trawma, anawsterau lleferydd ac iaith, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, problemau ymddygiad ac ati.
-  Yn y gorffennol roedd anawsterau wrth gael mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) oherwydd rhestrau aros hir, weithiau mwy na 64 wythnos. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu menter rhestr aros newydd i helpu i gyflawni'r safon asesu 28 diwrnod ar gyfer atgyfeiriadau CAMHS arbenigol a'r safon 28 diwrnod ar gyfer atgyfeiriadau Anhwylder Niwroddatblygiadol (NDD) sy'n derbyn asesiad diagnostig. Rhagwelir y bydd y targed 28 diwrnod yn cael ei gyflawni a bydd cynnydd yn cael ei wneud i'r safon 28 diwrnod ar gyfer NDD erbyn diwedd Mawrth 2017.
-  Gall symudiad pobl ifanc cyn ac ar ôl iddynt gael mynediad i'r ystad ddiogeledd darfu ar ddarpariaeth gofal iechyd.





## PA GYMORTH SYDD EI ANGEN AR BOBL IFANC YN HILLSIDE?

...Cael swydd

...Diogelu hawliau

...Cyfrannu at gymdeithas

...Cael mynediad i addysg,  
hyfforddiant a hamdden

...Mwynhau perthnasau diogel ac  
iach a themlo fy mod yn perthyn

...Bod yn iach



...Bod yn ddiogel rhag camdriniaeth  
ac esgeulustod

...Byw mewn cartref sy'n gweddu  
i'm hanghenion



## FAIN'T MAE'N EI GOSTIO?







---

-  Mae'n costio £750 y gwely, y noson yn Hillside.
-  Ni ellir cynnwys data'n ymwneud â chostau oherwydd byddai hyn yn cael ei farnu'n fasnachol gyfrinachol.








## PA NEWIDIADAU Y MAE’N RHAID I NI GYNLL-UNIO AR EU CYFER?

-  Trwy ei gynllun ailwrpasu mae Hillside eisoes yn diogelu ei wasanaeth ar gyfer y dyfodol trwy ddatblygu tîm mewnol o arbenigwyr sy’n lleihau unrhyw oedi o ran asesiad seicolegol ac ymyriad. Rhaid i’r gwasanaeth ateb anghenion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a’r Awdurdod Lleol.
-  Mae galw am wasanaeth trosglwyddo i gefnogi pobl ifanc sy’n gadael y ddarpariaeth ac i’r rhai nad ydynt yn diwallu’r drothwy ar gyfer llety diogel. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth sy’n sefyll rhwng gofal preswyl a lleoliadau gofal diogel. Byddai rhaid cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i wneud y ddarpariaeth arall arfaethedig hon yn bosibl.
-  Er mwyn ateb anghenion Awdurdodau Lleol sy’n rhoi pobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd ac er mwyn llenwi bwlch yn y farchnad mae cynlluniau i Hillside ddatblygu ei wasanaeth cludiant diogel ei hunan.
-  Mae’r tîm clinigol mewnol yn darparu gwasanaeth allgymorth i gydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae cynlluniau i ehangu’r gwasanaeth hwn i asiantaethau eraill yn yr ardal gan ddefnyddio model adnewyddu i dalu costau.
-  Mae archwiliad parhaus o’r manteision o ddatblygu rhaglen e-ddysgu i farchnata’r rhaglenni hyfforddi a therapiwtig a ddatblygwyd yn Hillside.
-  Gweithlu sy’n gwybod am drawma ac sy’n deall goblygiadau profiadau anffafriol plentyndod.









- 
-  Rhaid i waith cynllunio ac ariannu gwasanaethau allu ymdopi â galw'r ddarpariaeth yn y dyfodol ac ateb anghenion y bobl ifanc. Gellir cyflawni hyn trwy ddatblygu cyfleoedd newydd yn y farchnad i greu incwm y gellir ei ddefnyddio i gefnogi ac ehangu swyddi ychwanegol o fewn y cartref.
  -  Mae pwysau'n codi ar y cartref o ran capasiti i ddarparu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cynyddol gymhleth. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n ddiodefswyr camfanteisio rhywiol. Mae hyn yn debygol o gynyddu wrth i asiantaethau ddod yn fwy ymwybodol o ddiogelu pobl ifanc o fewn y maes pryder penodol hwn.
  -  Mae angen datblygu systemau i fonitro perfformiad pob sector yn y ganolfan, clinigol, addysg, ailsefydlu a chamddefnyddio sylweddau.
- 





## YR YSTAD DDIOGELEDD – CARCHAR EI MAWRHYDI ABERTAWE

### CARCHAR EI MAWRHYDI ABERTAWE – PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

-  Carchar Ei Mawrhydi Abertawe – agorwyd yn 1861. Lleolir y carchar tua hanner milltir o ganol y ddinas.
-  Yn wreiddiol roedd capasiti gweithredol ar gyfer 219 o ddynion, ond trwy foderneiddio ac uwchraddio mae wedi cael ei ehangu i letya 515 o ddynion.
-  Mae’r carchar yn garchar lleol Categori B, sy’n dal oedolion gwryw ac oedolion gwryw ifanc. Fel yn 19 Hydref roedd 467 o garcharorion yn cael eu dal.
-  Mae’r rhan fwyaf o gelloedd yn lletya dau ddyn, ond mae ychydig o gelloedd yn lletya tri ac mae nifer fach o gelloedd unigol.
-  Mae’r carcharorion sy’n oedolion naill ai’n cael eu cadw yn y ddalfa gan y llysoedd wrth iddynt aros eu prawf neu maent yn ddynion sydd wedi cael eu dyfarnu’n euog ac yn gwneud llai na dwy flynedd. Mae’r oedolion ifanc i gyd yn aros eu prawf yn y ddalfa.
-  Mae Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn garchar cadw/ailsefydlu sy’n golygu bod llawer o garcharorion o Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Chaerfyrddin yn gwneud y 12 wythnos derfynol o’u dedfryd yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe cyn cael eu hailsefydlu yn eu cymuned.





## — PROFFIL OEDRAN

Grŵp Oedran	Nifer y Troseddwyr	%
Dan 21	32	6.85%
21 - 29 oed	164	35.12%
30 - 39 oed	169	36.19%
40 - 49 oed	77	16.49%
50 - 59 oed	23	4.93%
60 - 69 oed	<5	0.43%




## — AM FAINT MAE POBL YN AROS?

Hyd yr Arhosiad	Nifer y Troseddwyr	Canran
Llai na mis	174	37%
1 mis i 3 mis	147	31%
3 mis i 6 mis	96	21%
6 mis i flwyddyn	40	9%
1 flwyddyn i 2 flynedd	10	2%
Cyfanswm	467	100%



## — PROFFIL IECHYD

Mae cynlluniau i sefydlu clinigau rheoli poen i'r rhai sydd â chyflyrau cronig. Fel yn 4 Medi 2015 roedd:

-  8 carcharor â diabetes
-  11 o garcharorion ag epilepsi
-  16 o garcharorion â chlefyd coronaidd y galon

Anabledd	Nifer y Carcharorion ag Anabledd
Anffurfiad Difrifol	<5
Cyflwr sy'n Gwaethygu	<5
Nam ar y Golwg	<5
Gallu Corfforol wedi'i Gyfyngu	<5
Symudedd wedi'i Gyfyngu	13
Dyslecsia	16
Anabledd Dysgu	21
Anabledd Arall	37
Salwch Meddwl	79





## PWY SY’N CAEL HELP A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

### — LLEIHAU DIBYNTIAETH AR SYLWEDDAU

Atgyfeiriadau i wasanaeth cyffuriau’r carchar, sef Cwnsela, Asesu, Atgyfeirio, Cyngori ac Ôl-ofal (CAACO).

Mis	Nifer yr atgyfeiriadau i CAACO
Ebrill	77
Mai	89
Mehfin	95
Gorffennaf	109

Roedd heroin (149 o achosion) ac alcohol (107) yn cyfrif am y rhan fwyaf o atgyfeiriadau rhwng Ebrill a Gofennaf 2015.





Mae Gwasanaeth Gofal Iechyd y Carchar yn gweithio mewn partneriaeth â CAACO i ddelio ag agweddau clinigol lleihau dibyniaeth carcharorion.



---

## — RHOI'R GORAU I YSMYGU



---

-  Yn unol â pholisi'r Llywodraeth daeth Carchar Abertawe yn ddi-fwg ym mis Mawrth 2016, un o'r carchardai cyntaf i wneud hynny felly.
-  Rhoddwyd cyfres o glinigau rhagnodi ar waith cyn y dyddiad rhoi'r gorau iddi i sicrhau bod y rhai sydd wedi gofyn amdano yn cael Therapi Disodli Nicotin cyn i'r carchar ddod yn ddi-fwg.
-  Mae ffurfiau eraill o gymorth sydd ar gael yn cynnwys cefnogaeth gan gymheiriaid, y gallu i brynu e-sigarennau, mae gwybodaeth mentor wedi cael ei diweddarau i gynnwys cyngor ynghylch camddefnyddio patsys.
-  Bydd yr effaith iechyd hirdymor, o ran rhoi'r gorau i ysmegu, yn cael ei chofnodi.

---

## — GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

---


-  Mae gan y dynion fynediad i ddeintyddion, podiatryddion, optegwyr a gwasanaethau seiciatrig. Mae cysylltiadau wedi cael eu meithrin â'r Nyrs Digartrefedd a'r Gweithiwr Allgymorth Iechyd Meddwl a Phobl Fregus Mewn Llety a Meddygon Teulu lleol. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gyfrifoldeb am ddarpariaeth yr Adran Gofal Iechyd.
-  Mae'r Tîm Carcharu Mwy Diogel wedi cyflwyno cwrs 'Smart Recovery' i ddynion â phroblemau iechyd meddwl ac maen nhw'n meithrin cysylltiadau ag amrywiaeth o asiantaethau iechyd meddwl. Mae seicolegydd bellach yn gweithio gyda dynion dynodedig ac mae adroddiadau'n cael eu cynhyrchu i staff i'w cynorthwyo i ryngweithio â'r dynion a'u rheoli.




---

## — PACT (CYMORTH I DEULUOEDD)

---


 Mae Pact Cymru (Carcharorion, teuluoedd, cymunedau, dechrau o'r dechrau gyda'i gilydd) yn darparu cyrsiau a phrosiectau blaengar a buddiol. Mae Pact Cymru yn parhau i ddarparu nifer o gyrsiau gan gynnwys un gyda'r bwriad o helpu dynion mae eu troseddau yn gysylltiedig â thrais domestig. Mae cwrs grŵp babanod hefyd gyda'r bwriad o roi sgiliau rhianta ymarferol i dadau, a chwsr gyda'r teitl 'Amser i Deuluoedd'.

 Bydd menter newydd o'r enw "Pob Ymweliad yn Cyfrif" yn cael ei chyflwyno, gyda'r bwriad o sicrhau bod ymweliadau yn brofiadau cadarnhaol i'r carcharor a'r ymwelydd. Bydd swyddogion yn cael hyfforddiant i gynnig cyngor a chymorth i'r rhai sydd am ymgysylltu â nhw. Bydd hyfforddiant hefyd i gefnogi'r gwaith o weithredu Rhaglen Ddiogelu i blant.

---

## — AILSEFYDLU


---


 Nod y tîm ailsefydlu yw sicrhau bod yr holl ddynion yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer eu rhyddhau. Maen nhw'n cynorthwyo'r dynion i ddod o hyd i gyflogaeth a llety ar ôl cael eu rhyddhau, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i'r rhai sy'n gofyn amdano.


---

## — ADDYSG

---

 Mae'r Adran Addysg yn rhan annatod a gwerthfawr o gyfundrefn y carchar gyda nifer o fentrau blaengar ac ysgogol yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Mae'r dynion yn gallu ennill amrywiaeth o sgiliau a fydd yn ddefnyddiol yn y gweithle allanol.

 Mae'r Campws Dysgu Rhithwir bellach yn llawn weithredol ac yn darparu asesiadau rhifedd a llythrennedd cychwynnol ar gyfrifiadur.

 I gyd-fynd â'r mentrau dysgu a sgiliau, mae dynion yn cael cyfle i wneud gwaith pwrpasol mewn amrywiol feysydd. Ar hyn o bryd mae 22 o ddynion yn gweithio yn y gegin. Ar ôl cwrs hylendid sylfaenol dros bythefnos, gallan nhw weithio ac, ar yr un pryd, ennill NVQ naill ai ar Lefel 1 neu Lefel 2.

 Mae darpariaeth Gymraeg yn cael ei threfnu ac mae defnydd o'r iaith yn cael ei annog.





## FAINT MAE'N EI GOSTIO?

---

Ym mis Mawrth 2016, roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyllid grant o hyd at £34,916 ar gyfer Abertawe, i gefnogi darpariaeth gofal a chymorth i'r rhai yn yr ystad ddiogeledd ar gyfer 2016-2017. Mae'r cyllid hwn am flwyddyn yn unig; ar ôl hynny, bydd cyllid yn gostwng i £32,629 yn barhaol. Mae'r gyllideb hon yn cyd-fynd â chostau gofal uniongyrchol a chymorth.

---










## PA NEWIDIADAU MAE’N RHAID I NI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

- Byddai gweithredu’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gynnar yn awgrymu bod anghenion cymorth yn ymwneud ag ailsefydlu yn flaenoriaeth.
- Mae ymateb aml-asiantaeth yn ofynnol i ddiwallu gofynion atal.
- Mae trefniadau cynllunio a llywodraethu ar waith i ateb anghenion iechyd carcharorion ac mae’r rhain wedi cael eu hehangu i gynnwys gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant .
- Rhaid i strategaethau cydgomisiynu yn y dyfodol gynnwys gofynion atal y bobl yn yr ystad ddiogeledd.
- Gweithredu’r Llwybr Digartrefedd a newidiadau deddfwriaethol i dai a statws anghenion blaenoriaeth cyn-droseddwr.
- Dylid ystyried anghenion y rhai yn yr ystad ddiogeledd ym mhob adolygiad comisiynu yn y dyfodol.

## — THEMÂU SYDD WEDI DATBLYGU O’R ASESAD ANGHENION IECHYD


- Llwybr triniaeth i’r rhai sy’n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd.
- Cofnodi iechyd rhywiol yn well, archwiliad o ddefnydd condomau y tu mewn i’r carchar.
- Cofrestr o glefydau cronig i gael cydraddoldeb â disgwyliadau a safonau’r gymuned.
- Gwell mynediad i ymyriadau seicolegol: nodwyd y dylid hyfforddi staff i ddarparu Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Ymddygiad Dialectig.



- 
-  Dylai cwnsela fod ar gael i garcharorion sy'n bwrw cyfnodau hirach yn y carchar.
  -  Hyfforddiant ychwanegol i staff gofal sylfaenol ym meysydd iechyd rhywiol a chamddefnyddio sylweddau i leihau amserau aros i weld therapyddion hyfforddedig unigol.
  -  Mae angen adolygu cyfleusterau campfa.
  -  Gwell darpariaeth gwasanaethau: yn enwedig rheoli argyfwng Feirws a Gludir yn y Gwaed, adnabod anabledau dysgu a gofal diabetes.
  -  Gwell prosesau gweinyddol.
- 







# **WESTERN BAY**

## **POPULATION ASSESSMENT REPORT**

[www.westernbay.org.uk](http://www.westernbay.org.uk)